Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2026-27

Awst 2025

## Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 19 Medi 2025.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

Neu gellir eu cwblhau'n electronig a'u hanfon drwy e-bost i:
post@archwilio.cymru

Os oes angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu drwy ffonio 029 2032 0500.

## Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth rydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol nac Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Pan fo data o'r fath o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan berson arall, bydd angen ystyried darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o dan yr amgylchiadau penodol. Er na ellir barnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu y bydd gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bod enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu dal yn ôl.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein trefniadau Cymraeg ar ein gwefan. Wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ydych yn ystyried bod unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn sy'n tanseilio neu'n cefnogi'r gofyniad hwn. Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw ddiwygiadau y gellid eu gwneud i gefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# Cynnwys


Sut i ymateb 2

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data 2

Safonau'r Gymraeg 3

Rhagair 5

Ymgynghoriad 7

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data) 9

Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol 10

- Awdurdodau Unedol 10
- Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol 11
- Awdurdodau Tân ac Achub 11
- Awdurdodau Parc Cenedlaethol 12
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 13
- Cynghorau tref a chymuned gydag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn 14
- Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol 15

# Rhagair

Byddwch yn gyfarwydd â'n hymgynghoriad blynyddol ar raddfeydd ffioedd. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ni wneud hyn ar gyfer cyrff llywodraeth leol, ond rydym yn dewis ymgynghori'n ehangach fel bod pob rhanddeiliad yn cael cyfle i ymateb i'n cynigion ffioedd.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol **na chaiff** y ffioedd a godir gennym fod yn fwy na'r gost lawn o arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi. **Nid ydym ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith**. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau sy'n wynebu'r cyrff rydym yn eu harchwilio ac yn herio ein model gweithredu yn gyson i sicrhau bod ein ffioedd yn darparu gwerth am arian. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio drwy sgiliau ein staff a'r dechnoleg a ddefnyddiwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'n **cyfraddau** ffioedd fesul awr. Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol archwiliedig yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar y cwantwm o waith a'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen. Rydym yn gosod ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein sylfaen gost amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig ar gyfer gwaith archwilio a'r nifer amcangyfrifedig o ddyddiau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae Archwilio Cymru yn parhau i fod yn benderfynol o leihau ffioedd archwilio i'r lleiafswm tra'n sicrhau bod ansawdd ei archwilio yn parhau i fodloni safonau llym.

Ar gyfer 2025-26, byddwch yn cofio ein bod wedi nodi effeithlonrwydd a ganiataodd inni gynyddu ein cyfraddau ffioedd llai nag 1.7% er gwaethaf wynebu pwysau chwyddiant ar ein sylfaen costau, ac ar ben hynny cystadleuaeth gref ar gyfer archwilwyr y sector gyhoeddus, a gofynion ansawdd sy'n cynyddu'n barhaus. Ar yr un pryd, gwnaeth ein hadolygiad o'r dull archwilio ISA315 newydd ein galluogi i **leihau** ein ffioedd gwirioneddol ar gyfer archwilio cyfrifon 3% ar gyfartaledd.

Ar gyfer 2026-27 mae'n rhaid i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd 5.5% ar gyfartaledd i fodloni'r un cyfuniad o bwysau chwyddiant ar ein sylfaen costau a disgwyliadau ansawdd. I awdurdod unedol mawr gyda throsiant o £1 biliwn – bydd hyn yn trosi'n gynnydd arian parod yn ein ffi archwilio nodweddiadol o £14,000 yn unig. I gorff llai, fel Awdurdod Tân ac Achub, mae'r cynnydd yn cyfateb i tua £2,000.

Gyda'i gilydd, bydd ein cyfraddau ffioedd dros y ddwy flynedd ariannol – 2025-26 a 2026-27 – wedi cynyddu 7.3%. Diolch i'r effeithlonrwydd rydym wedi'i ysgogi yn ein gwaith, er gwaethaf y cynnydd hwn mewn cyfraddau ffioedd, bydd y ffi gyfartalog a godir mewn gwirionedd am ein gwaith archwilio cyfrifon wedi cynyddu **ychydig dros 2%** dros y cyfnod 2 flynedd hwnnw.

Mae ein ffioedd yn cymharu'n ffafriol â'r rhai mewn archwilio cyhoeddus yn Lloegr. Yn Lloegr, cynyddodd ffioedd archwilio yn y blynyddoedd diwethaf yn erbyn cefndir o gyfrifon wedi'u gohirio, archwiliadau wedi'u gohirio, a barn wedi'i gwadu. Mae ein sefyllfa yng Nghymru yn llawer gwell ond rhaid i ni barhau i fuddsoddi mewn ansawdd, technoleg a chyflawniad archwilio os ydym am gynnal y sefyllfa hon a chyflawni ein hamcan o gyflawni'r holl waith archwilio cyfrifon 2025-26 erbyn 30 Medi 2026, lle mae cyrff archwiliedig wedi gallu cyflwyno eu cyfrifon i ni erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt.

Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad i'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

Gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Diolch yn fawr



**Adrian Crompton**
Adrian Crompton,
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ymgynghoriad

## Cyfraddau ffioedd 2026-27

Ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2026-27 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2026-27**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2026-27 | Cyfradd (£ yr awr) 2025-26 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 189 | 183 |
| Rheolwr Archwilio | 146 | 141 |
| Arweinydd Archwilio | 120 | 115 |
| Uwch-archwilydd | 96 | 91 |
| Archwilydd | 66 | 66 |
| Hyfforddai graddedig | 63 | 59 |
| Prentis | 50 | 47 |

Mae'r cyfraddau hyn yn cynrychioli cynnydd cyfartalog pwysoledig o 5.5% yn seiliedig ar ein cymysgedd staff cyffredinol. Mae cynnydd yn ôl gradd yn amrywio oherwydd, i fodloni'r gofyniad 'dim mwy na chost llawn', rydym yn cyfrifo cyfraddau yn seiliedig ar staff gwirioneddol yn y swydd, ac felly mae'r cyfraddau'n caniatáu cynnydd cynyddol lle bo hynny'n berthnasol yn ogystal â'r codiadau cyflog disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu ar ein cynlluniau gwariant, perfformiad a chyllideb, ac mae'r rhagdybiaethau yn yr ymgynghoriad hwn yn amodol ar gymeradwyaeth ein Hamcangyfrif yn hydref 2025 a'n Cynllun Ffioedd yn gynnar yn 2026.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n gwariant yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25 a'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25.

## Ein graddfeydd ffioedd drafft ar gyfer cyrff llywodraeth leol

Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu'r graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol ac ar gyfer cyfranogwyr gorfodol i'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r graddfeydd yn dangos yr ystod o ffioedd yr ydym yn disgwyl eu codi ar gyfer corff archwiliedig nodweddiadol yn y sector hwnnw gyda ffioedd gwirioneddol yn cael eu pennu mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Nid oes angen y graddfeydd hyn ar gyfer unrhyw sector arall.

Byddwn yn croesawu'n fawr eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 19 Medi 2025, i lywio adolygiad y Senedd o'n Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2026-27.

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

1 Rydym yn gwahodd eich barn ar barhau i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ar sail dim ffi.

2 Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar a rhagnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer paru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn yr NFI. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal yr Ymchwiliad Cenedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

3 Mae'r NFI yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n anghywir. Mae'r NFI wedi bod yn adnodd hynod effeithiol wrth ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Nododd ein hadroddiad bob dwy flynedd diwethaf arbedion posibl a gordaliadau o £7.1 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu arbedion cronnus i £56.5 miliwn ers 1996.

4 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg yr NFI drwy daliad o'r WCF. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, dangosir ffioedd cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | Ffi 2026-27 |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Efallai y bydd pob cyfranogwr hefyd yn cael mynediad at Wiriwr Cais NFI (App Check) | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

5 Rydym yn gwahodd eich barn ar y graddfeydd ffioedd arfaethedig a fydd yn berthnasol i gyrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26 ac ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27.

6 Mae ein harchwiliad o raddfa ffioedd cyfrifon yn ystyried y cynnydd cyfartalog mewn cyfraddau ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1**.

## Awdurdodau unedol

**Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrifol £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrifol £'000** |
| 100 | 147 | 174 | 200 | 166 |
| 200 | 177 | 209 | 240 | 200 |
| 300 | 198 | 232 | 267 | 222 |
| 400 | 213 | 251 | 289 | 240 |
| 500 | 226 | 266 | 306 | 255 |
| 600 | 238 | 280 | 322 | 267 |
| 700 | 248 | 291 | 335 | 279 |
| 800 | 257 | 302 | 347 | 289 |
| 900 | 265 | 311 | 358 | 298 |
| 1,000 | 272 | 320 | 368 | 306 |
| 1,100 | 279 | 329 | 378 | 314 |
| 1,200 | 286 | 336 | 387 | 322 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| | 116 | 123 | 139 | 118 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa bensiwn | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| | 45 | 58 | 61 | 56 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| 20 | 43 | 51 | 58 | 49 |
| 40 | 52 | 61 | 70 | 59 |
| 60 | 58 | 68 | 78 | 65 |
| 80 | 63 | 74 | 85 | 70 |
| 100 | 66 | 78 | 90 | 75 |

**Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| | 20 | 22 | 24 | 18 |

## Awdurdodau Parc Cenedlaethol

**Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gross Expenditure £ million | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| 2 | 27 | 32 | 36 | 30 |
| 4 | 32 | 38 | 44 | 36 |
| 6 | 36 | 42 | 49 | 40 |
| 8 | 39 | 46 | 52 | 44 |
| 10 | 41 | 48 | 56 | 46 |

**Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £'000 | Canolrifol £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrifol £'000 |
| | 23 | 24 | 27 | 23 |

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

7 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Bydd rhaniad cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol yn fater i archwilwyr benderfynu, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob un o'r cyrff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Ystod ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros cyfunol Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrifol £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrifol £'000** |
| 50 | 74 | 86 | 97 | 82 |
| 100 | 88 | 101 | 115 | 97 |
| 150 | 97 | 112 | 128 | 107 |
| 200 | 104 | 120 | 137 | 115 |
| 250 | 109 | 127 | 145 | 122 |
| 300 | 114 | 133 | 152 | 127 |
| 350 | 119 | 138 | 158 | 132 |

## Cynghorau tref a chymuned gydag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn 15

8 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn destun trefn archwilio sicrwydd gyfyngedig.

9 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau 2024-25 | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2025-26 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2026-27 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn |

10 Mae taliadau am y gwaith hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad ar ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar **dudalen 6**.

11 Mae **Arddangosyn 12** yn darparu ystod o ffioedd ar gyfer cynghorau o wahanol feintiau fel y'u mesurir yn ôl incwm a gwariant. Mae'r ystodau diweddaredig hyn yn ystyried profiad Archwilio Cymru o ffioedd sy'n deillio o archwiliadau 2021-22 i 2023-24.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o daliadau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2025-26**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad llawn | £250-£500 | £300-£700 | £500-£900 | £600-£1,010 | £600-£1,260 | £800-£1,510 |
| Archwiliad sylfaenol | £200-£300 | £200-£300 | £200-£300 | £250-£350 | £250-£350 | £250-£350 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

12 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y rhagnodwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer fel y dangosir uchod, mae nifer bach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae ein rhagnodiad o raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion adnoddau yn ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau darparu'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'n parhau i fod yn wir, ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull seiliedig ar sero i gynllunio archwiliad.

13 Er mwyn i bob math o gorff llywodraeth leol gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, weithiau mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, archwiliadau arbennig, a gwaith pellach mewn perthynas â her gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.

14 Gall archwilwyr hefyd ymgymryd â gwaith ardystio grant mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae swm y gwaith ardystio grant a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Gwneir taliadau am y gwaith hwn fesul awr ac maent yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw faterion mewn perthynas â'r grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau**

| Gradd staff | Cymysgedd staff grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff pob grant arall % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 1 to 2 | 0 to 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 to 6 | 1 to 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 to 21 | 12 to 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/ prentis | 71 to 77 | 81 to 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- LA01 Ffurflenni ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.